AWDURDOD ADDYSG - YNYS MÔN - EDUCATION AUTHORITY
YSGOL GYNRADD LLANBEDRGOCH
Ffordd yr Ysgol
Llanbedrgoch
Ynys Môn / Anglesey
LL76 8SX

Pennaeth Dros Dro / Acting Headteacher
Miss Elain Wyn Jones BMus MA

(01248) 450291

6602146_pennaeth.llanbedrgoch@hwbcymru.net

Medi'r 6ed, 2021

Annwyl Rieni/Gwarcheidwaid,

Hoffwn gadarnhau mai fi, Miss Elain Wyn Jones, fydd athrawes ddosbarth eich plentyn am y flwyddyn i ddod a Phennaeth Dros Dro yr ysgol tan ddiwedd yr Haf. Edrychaf ymlaen at gael cydweithio â'r plant a chwithau. Ein thema y tymor hwn ydy 'Ymhell, bell i ffwrdd'. Dyma rai pethau pwysig i'ch hysbysu ar ddechrau'r tymor newydd:

- **ClassDojo** — **Sicrhewch eich bod yn defnyddio app/gwefan Classdojo**. Dyma'r brif ffordd o gyfathrebu gyda mi. Os oes gennych unrhyw gwestiwn neu bryder, rhaid cysylltu drwy ClassDojo yn hytrach na ffonio'r ysgol. Byddaf yn eich ateb cyn gynted ag y gallaf. Bydd unrhyw wybodaeth/llythyrau yn cael eu rhannu arno.

- **Ymarfer Corff** — Bydd y gwersi Ymarfer Corff ar **ddydd Mercher**, felly bydd angen i'ch plentyn gofio gwisg addas, gan gynnwys 'trenyrs'.

- **Gwaith Cartref** — Bydd gwaith cartref yn cael ei osod i'r plant ar ddydd Gwener a disgwylir iddo gael ei gwblhau **erbyn y dydd Mawrth canlynol**. Bydd y gwaith yn cael ei gyflwyno dros Google Classroom, ond os oes unrhyw broblem, bydd modd i'ch plentyn dderbyn copi papur. Gofynnaf yn garedig am eich cefnogaeth i sicrhau fod eich plentyn yn cwblhau'r gwaith cartref ar amser os gwelwch yn dda. Bydd pob tasg yn cefnogi'r hyn y byddwn wedi'i gwblhau yn ystod yr wythnos.

- **Llyfrau darllen** — Mae eich plentyn wedi derbyn llyfr darllen Cymraeg a Saesneg heddiw. Mae modd iddynt eu **newid ar ddydd Gwener**.

- **Arian** — Rydym bellach yn ysgol heb arian parod, ac eithrio wrth gasglu at elusen, ac mae angen talu popeth arall drwy'r app School Gateway. Cysylltwch os ydych angen unrhyw gymorth.

Diolch am eich cydweithrediad ac edrychaf ymlaen at flwyddyn hapus yma. Cofiwch gysylltu os oes gennych unrhyw bryder.

Diolch yn fawr,
Miss Elain Wyn Jones
(Pennaeth Dros Dro)